# Cynllunio Gofodol Morwrol

## Y Diweddaraf am Bolisi'r UE: Ebrill 2015

## Rhagarweiniad

Ym mis Gorffennaf 2014, mabwysiadodd Senedd Ewrop a'r Cyngor **Gyfarwyddeb 2014/89/EU** i greu fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio gofodol morol yn yr Undeb Ewropeaidd. Yn fras, mae'r Gyfarwyddeb yn gosod gofyniad cyfreithiol bod Aelod-wladwriaethau yn datblygu Cynlluniau Gofodol Morol (CGM) a'u rhoi ar waith erbyn 2021 fan bellaf. Yn y pen draw, nod y Gyfarwyddeb yw sefydlu 'fframwaith ar gyfer cynllunio gofodol morol gyda'r bwriad o hyrwyddo twf cynaliadwy economïau morol, datblygiad cynaliadwy ardaloedd morol a defnydd cynaliadwy o adnoddau morol.' [1] Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddod â'r deddfau, y rheoliadau a'r darpariaethau gweinyddol sydd eu hangen i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb i rym erbyn 18 Medi 2016.

## Crynodeb o brif bwyntiau'r cynigion

Mae'n ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth ddatblygu CGM a'i roi ar waith cyn gynted ag y bo modd, ac erbyn 2021 fan bellaf, ac adolygu'r cynlluniau hyn o leiaf unwaith bob 10 mlynedd. Mae Cynlluniau Gofodol Morol yn fapiau o ardaloedd morol sy'n nodi, ar sail lle ac amser, y mathau o weithgareddau morol sy'n digwydd yn y rhannau hynny o'r môr. Dylai'r CGM ymdrin â'r cylch cyfan o ran canfod cyfleoedd, casglu gwybodaeth, cynllunio, gwneud penderfyniadau, gweithredu, adolygu neu ddiweddaru, a monitro.

Mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi cryn ddisgresiwn i'r Aelod-wladwriaethau o ran dylunio a gosod CGM ac o ran cydbwysedd rhwng y gwahanol amcanion ym mhob Cynllun. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau o leiaf roi rhywfaint o ystyriaeth i'r amcanion canlynol:

- Cefnogi datblygiad a thwf cynaliadwy yn y sector morol;
- Hyrwyddo cydfodolaeth rhwng gweithgareddau a mathau o ddefnydd perthnasol;
- Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy sectorau ynni ar y môr, trafnidiaeth forol, a sectorau dyframaeth a physgodfeydd;
- Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd; a
- Gall Aelod-wladwriaethau fynd ar drywydd amcanion eraill, megis hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy ac echdynnu deunyddiau crai yn gynaliadwy.[2]

Wrth ddylunio CGM, rhaid i Aelod-wladwriaethau:

- fabwysiadu dull ecosystem;
- cymryd i ystyriaeth rhyngweithiadau rhwng y tir a'r môr;
- cymryd i ystyriaeth agweddau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, yn ogystal ag agweddau diogelwch;
- ceisio hyrwyddo cydlyniad rhwng cynllunio gofodol morol a'r cynllun neu gynlluniau sy'n deillio o hynny, ynghyd â phrosesau eraill, fel rheoli integredig ar yr arfordir neu arferion ffurfiol neu anffurfiol cyfatebol;
- sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid;
- trefnu'r defnydd o'r data gorau sydd ar gael;
- sicrhau cydweithredu trawsffiniol;

[1] OJ L 257, 28.8.2014 [fel ar 16 Mawrth 2015]

[2] Ibid

– hyrwyddo cydweithredu â thrydedd wledydd;

– sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth bresennol yr UE, megis Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

### Cyfranogiad y cyhoedd:

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sefydlu modd i'r cyhoedd gyfranogi yn gynnar yn natblygiad y Cynlluniau Gofodol Morol. Gwneir hyn drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid ac awdurdodau perthnasol, ac â'r cyhoedd, a rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod ganddynt fynediad at y cynlluniau terfynol.

### Cydweithredu ar draws ffiniau:

Fel rhan o'r broses cynllunio a rheoli, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sy'n ffinio â dyfroedd morol gydweithio er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Gofodol Morol yn gydlynol ac yn gydgysylltiedig yn y rhanbarth morol dan sylw.

### Awdurdodau cymwys:

Mae'n ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth ddynodi sefydliad a fydd yn gyfrifol am roi'r Gyfarwyddeb ar waith ym mhob rhanbarth morol a'u nodi wrth y Comisiwn, ynghyd â'r wybodaeth a restrir yn yr Atodiad i'r Gyfarwyddeb. Mae'n rhaid i'r awdurdod neu awdurdodau cymwys gael eu dynodi erbyn 18 Medi 2016.

### Camau monitro ac adrodd:

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau anfon copïau o'r CGM, ynghyd â deunydd esboniadol perthnasol a baratowyd eisoes ynghylch rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith, a phob diweddariad wedi hynny, i'r Comisiwn ac i unrhyw Aelod-wladwriaeth arall dan sylw o fewn tri mis i'w cyhoeddi. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Gyfarwyddeb i Senedd Ewrop ac i'r Cyngor, flwyddyn fan bellaf wedi'r terfyn amser ar gyfer sefydlu CGM, a phob pedair blynedd wedi hynny.

## Cefndir a chyd-destun y Gyfarwyddeb

Mae'r galw am ofod morol ac arfordirol yn yr UE yn cynyddu, ac mae hynny'n arwain at wrthdaro a disbyddu adnoddau. Hefyd, mae'r ardaloedd arfordirol a morol o dan bwysau yn sgil risgiau hinsoddol a pheryglon naturiol.[3]

### Polisi Morol Integredig[4]:

Yn 2008, mabwysiadodd yr UE Bolisi Morol Integredig (PMI). Mae'r PMI yn cynnig fframwaith cyffredinol ar gyfer pob polisi sy'n effeithio ar ardaloedd morol ac arfordirol yn nyfroedd yr UE. Nod y PMI yw sicrhau cydlyniad a chydgysylltiad o ran polisïau morol, ar draws y sectorau a rhwng yr Aelod-wladwriaethau. Mae'r PMI yn canolbwyntio ar: dwf economaidd y sectorau morol ('twf glas'), goruchwyliaeth forol, gwybodaeth a data morol, a chynllunio gofodol morol.

### Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol:

Cyfarwyddeb Fframwaith Y Strategaeth Forol (2008/56/EC)[5] yw piler amgylcheddol y PMI. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Aelod-wladwriaethau yn mabwysiadu dull ecosystem ar gyfer rheoli eu moroedd er mwyn sicrhau bod holl ddyfroedd morol yr UE yn cyrraedd 'Statws Amgylcheddol Da' erbyn 2020. Rheoliadau Strategaeth Forol, 2010 sy'n trosi hyn i gyfraith y DU.[6]

### Datblygu Cynllunio Gofodol Morwrol:

Yn 2002, gwnaeth Senedd a Chyngor Ewrop argymhelliad ynghylch gweithredu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn Ewrop (2002/413/EC)[7] er mwyn annog Aelod-wladwriaethau i ymgymryd â dull gweithredu strategol o ran rheoli'r arfordir. Yn 2008, cyhoeddodd y Comisiwn y ddogfen '*Roadmap for*

---

[3] Y Comisiwn Ewropeaidd **Polisi Morol Integredig** (gwefan) [fel ar 17 Mawrth 2015]
[4] *Ibid*
[5] **OJL 164, 25.06.2008** [fel ar 17 Mawrth 2015]
[6] Y **Rheoliadau Strategaeth Forol** SI 2010/1627 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[7] **OJ L148, 6.6.2002** [fel ar 17 Mawrth 2015]

*Maritime Spatial Planning: Achieving Common Principles in the EU*[8], ac yn dilyn hynny, yn 2010, cyhoeddodd Nodyn Cyfathrebu '*Maritime Spatial Planning in the EU - Achievements and Future Development*'.[9]

Ym mis Mawrth 2011, lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd ymgynghoriad cyhoeddus ar CGM a Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (RhIBA) i asesu lle y byddai fwyaf defnyddiol i'r UE gymryd camau pellach. Llai na 2 y cant o'r 225 o ymatebion a gafwyd oedd yn anghytuno bod Cynllunio Gofodol Morol yn offeryn defnyddiol ar gyfer moroedd Ewropeaidd. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd yn galw am fframwaith ac amcanion cyffredin, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr (68 y cant) yn gwrthwynebu gwahanu CGM a RhIBA.[10]

Ar 13 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion drafft (COM/2013/0133) ar gyfer Cyfarwyddeb newydd gyda'r nod o sefydlu fframwaith yr UE cyffredin ar gyfer CGM a RhIBA er mwyn hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol a thwf cynaliadwy economïau morol ac arfordirol.[11] Y cynnig hwn oedd y rhagflaenydd i Gyfarwyddeb 2014/89/EU, a fabwysiadwyd, sy'n canolbwyntio ar Gynlluniau Gofodol Morol yn unig, heb gynnwys Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn y cynnig drafft.

### Cynllunio Morol yn y DU:

Daw deddfwriaeth ar ardaloedd morol ac arfordirol yn y DU o dan *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[12] (y cyfeirir ati fel *Deddf y Môr*). Crëwyd *Deddf y Môr* gyda'r nod o hyrwyddo defnydd cynaliadwy o systemau morol. Mae *Deddf y Môr* yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu cynlluniau morol yn unol â Datganiad Polisi Morol ar y cyd. Mabwysiadwyd Datganiad ar y cyd yn 2011 ac mae hwn yn nodi'r amcanion polisi lefel uchel ar gyfer dyfroedd y DU.

Mae *Deddf y Môr* yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau morol ar gyfer **rhanbarthau'r glannau a rhanbarthau'r môr** yng Nghymru a Lloegr. O dan *Ddeddf y Môr*, gweithrediaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio yn eu rhanbarthau môr, ond eu deddfwriaeth eu hunain sydd ganddynt ar gyfer cynllunio morol yn rhanbarthau eu glannau. Y rhain yw *Deddf y Môr (yr Alban) 2010*[13] a *Deddf y Môr (Gogledd Iwerddon) 2013*[14]. O ran datblygu eu cynlluniau morol, nid yw Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr un lle yn y broses. I gael rhagor o wybodaeth am y llinellau amser, gweler Nodyn Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil 2014 ar **Gynllunio Gofodol Morol.**

## Perthnasedd i Gymru

Mae ardal dyfroedd glannau Cymru bron ddwywaith arwynebedd tir Cymru o ran maint ac mae oddeutu 60 y cant o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ger y môr. Mae ardaloedd morol ac arfordirol Cymru yn sicrhau llawer o les a gwasanaethau ecosystem, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, pysgodfeydd, bioamrywiaeth a gwerth diwylliannol. Mae 70 y cant o arfordir Cymru yn cael ei gydnabod am ei bwysigrwydd amgylcheddol ac y mae'n rhan o dair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.[15]

Fel y soniwyd, mae Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol gyfrifol am roi Cyfarwyddebau Ewropeaidd ar waith yn nyfroedd Cymru ac am ddatblygu cynlluniau morol yn rhanbarthau glannau Cymru (0-12 milltir

[8] Y Comisiwn Ewropeaidd ***Roadmap for Maritime Spatial Planning: Achieving Common Principles in the EU*** COM/2008/0791 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[9] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Maritime Spatial Planning in the EU - achievements and future development*** COM/2010/0771 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[10] **Y Comisiwn Ewropeaidd, Cynllunio Gofodol Morol a Rheoli Integredig ar Barthau Arfordirol**, 26 Tachwedd 2014 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[11] **COM/2013/0133** [fel ar 16 Mawrth 2015]
[12] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** Pennod 23, [fel ar 17 Mawrth 2015]
[13] ***Marine (Scotland) Act 2010*** [fel ar 16 Ebrill 2013]
[14] ***Deddf y Môr (Gogledd Iwerddon) 2013***, 17 Medi 2013 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[15] Llywodraeth Cymru, **Morol**, 19 Tachwedd, 2014 [fel ar 17 Mawrth, 2015]

forol) a'r rhanbarthau ar y môr (12 milltir forol at ei ffin diriogaethol) o dan *Ddeddf y Môr*. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei nod o gael fersiwn gychwynnol o'i Chynllun Morol Cenedlaethol ar waith erbyn 2015.[16]

Yn dilyn argymhelliad yr UE yn 2002 ynghylch RhIBA, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '***Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru - Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru***'[17], sy'n amlinellu gwerth RhIBA a'i hegwyddorion, fel y'u hamlinellwyd gan yr UE. Mae'r strategaeth yn nodi sut y gallai'r egwyddorion hyn gael eu defnyddio yng Nghymru. Roedd diweddariad i fod i ddigwydd yn 2010, ond ni ddigwyddodd. Yn ei Ymchwiliad i Bolisi Morol, argymhellodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei strategaeth RhIBA cyn gynted ag y bo modd, ond cyn mis Ebrill 2014 fan bellaf.[18] Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r adolygiad o'r strategaeth RhIBA, a sut y gellid ei chyflawni orau, yn rhan annatod o'r gwaith ar y Cynllun Morol Cenedlaethol. Fel y soniwyd, nid yw rhoi RhIBA ar waith yn ddyletswydd statudol o dan Gyfarwyddeb 2014/89/UE ynghylch cynllunio gofodol morol, ond mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau ystyried rhyngweithiadau rhwng y tir a'r môr

[16]Llywodraeth Cymru, **Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**, 3 Chwefror 2014 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[17] Llywodraeth Cymru, ***Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru – Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru***, Mawrth 2007 [fel ar 17 Mawrth 2015]
[18] Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru - Llythyr dilynol**. Mai 2014 [fel ar 18 Mawrth 2015]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Gynllunio Gofodol Morol, cysylltwch â Katy Orford (**Katy.Orford@cynulliad.cymru**) est. 6316 neu Nia Seaton (**Nia.Seaton@cynulliad.cymru**) est. 8987

**Gweler hefyd:**

- **Cynllunio Gofodol Morol** Nodyn Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil
- **Deddf y Môr** Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil
- **Cynllunio Morol** Llywodraeth Cymru
- **Gynllunio Gofodol Morol** y Comisiwn Ewropeaidd
- **System Gynllunio Morol** Defra
- **Pysgodfeydd a Materion Morol** Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: **www.assembly.wales/cy/bus-home/research/Pages/research.aspx**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost at **Ymchwil@cynulliad.cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 15/0782**